**Grŵp Trawsbleidiol ar Siopau Bach: Lansio'r Adroddiad ar yr Ymchwiliad i Gefnogi Entrepreneuriaeth**

**Dydd Mercher 4 Gorffennaf 2018, 12:00 - 13:30: Ystafell Gynadledda D, Tŷ Hywel**

**COFNODION**

**YN BRESENNOL:**

| Enw cyntaf | Cyfenw | Etholaeth / Sefydliad |
|---|---|---|
| Janet | Finch-Saunders | Aberconwy |
| Russell | George | Sir Drefaldwyn |
| Mark | Isherwood | Gogledd Cymru |
| Vikki | Howells | Cwm Cynon |
| Bethan | Sayed | Gorllewin De Cymru |
| Simon | Thomas | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Steve | Dowling | Cymdeithas Siopau Cyfleustra |
| James | Lowman | Cymdeithas Siopau Cyfleustra |
| Edward | Woodall | Cymdeithas Siopau Cyfleustra |
| Rhys | Morris | Busnes Cymru |
| Andrew | Highway | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Robin | Osterley | Cymdeithas Manwerthu Elusennol |
| Amy | Bainton | Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru |
| Dawn | Elliott | ISA Training |
| Hannah | Moscrop | Janet Finch-Saunders AC |
| Victoria | Mann | NearMeNow |
| Imran | Latif | Nisa |
| Stuart | Taylor | Swyddfa'r Post |
| Rhian | Brimble | Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru |
| Jon | Fudge | Llywodraeth Cymru |
| Robert | Hunter | Banc Datblygu Cymru |
| Michelle | Gunn | Prince's Trust - Cymru |

1. **Croeso a chyflwyniadau**

Croesawodd Janet Finch-Saunders AC y rhai a oedd yn bresennol a chyflwynodd y cefndir i'r Ymchwiliad i Gefnogi Entrepreneuriaeth. Croesawodd Janet adroddiad terfynol yr ymchwiliad a'i ffocws ar dair thema allweddol, sef Pobl, Lleoedd a Pholisi.

Rhoddodd fanylion am ffocws yr adroddiad ar gefnogi 'entrepreneuriaid bob dydd' sy'n masnachu ar strydoedd mawr a pharedau Cymru er mwyn iddynt dyfu a ffynnu. Soniodd am yr angen i berchnogion busnes yn ogystal â chwsmeriaid barhau i fod â mynediad at arian parod yn lleol, yn dilyn rhaglenni cau canghennau gan fanciau.

2. **Trosolwg o'r adroddiad terfynol**

Cyflwynodd Janet Finch-Saunders AC drosolwg o argymhellion yr adroddiad. Dywedodd y byddai argymhellion yr adroddiad, wrth eu cymryd gyda'i gilydd, yn gwella perfformiad busnesau entrepreneuraidd ledled Cymru.

O ran pobl, mae'r adroddiad yn galw am gyfathrebu gwell ynglŷn â chyllid prentisiaethau, cymorth i gyflogwyr bach er mwyn cyflogi prentisiaid, ac ymagwedd broffesiynol newydd gan Lywodraeth Cymru tuag at ymgysylltu â chyflogwyr o fewn ysgolion. Mae'r ymchwiliad hefyd yn argymell adolygiad o'r gwasanaethau cymorth busnes sydd ar gael i entrepreneuriaid sy'n bodoli eisoes ac i'r rhai sy'n dymuno bod yn entrepreneuriaid.

Tynnodd Janet sylw at effaith strydoedd mawr lleol llwyddiannus ar ganfyddiad pobl o’u hardal leol. Mae newidiadau mewn manwerthu yn golygu bod angen rheoli newidiadau i strydoedd mawr yn ofalus a hyrwyddo seilwaith busnes effeithiol ar gyfer siopau. Mae'r adroddiad yn amlinellu na ddylai’r ffaith fod llai a llai o fynediad at wasanaethau bancio olygu bod yn rhaid i entrepreneuriaid dreulio mwy o amser i ffwrdd o'u busnes a dylid darparu band eang dibynadwy cyflym i bob eiddo yng Nghymru erbyn 2021 fel y nodir yng nghynllun gweithredu Symud Cymru Ymlaen.

Rhoddodd fanylion am argymhellion polisi'r adroddiad, gan gynnwys sefydlu 'Prawf Entrepreneuriaid' ar gyfer pob rheoliad busnes newydd, ysgogi buddsoddi drwy'r system ardrethi busnes a chynyddu ymwybyddiaeth o opsiynau cyllid busnes presennol.

### 3. Sesiwn y panel

Cymeradwyodd James Lowman Gymru fel lle da i sefydlu busnes o'i gymharu â gweddill y DU, gan nodi polisïau Llywodraeth Cymru ar gynllunio ac ardrethi busnes. Croesawodd Amy Bainton yr adroddiad am fynd i'r afael ag addysg mentergarwch mewn ysgolion a galwodd iddo lywio'r Cynllun Gweithredu Economaidd.

Amlinellodd Mark Isherwood AC ei gefnogaeth i argymhellion yr ymchwiliad, gan gynnwys 'Prawf Entrepreneuriaid' ar gyfer rheoliadau busnes ac adolygiad o wasanaethau cymorth busnes. Disgrifiodd Andrew Highway Gymru fel 'cenedl o entrepreneuriaid' a chroesawodd yr adroddiad am blethu ynghyd sut mae gwahanol bolisïau yn effeithio ar berchnogion busnes annibynnol a'i argymhellion ar gyfer ardrethi busnes.

Croesawodd y panel raglenni cyngor wyneb yn wyneb Busnes Cymru ond cododd bryderon ei bod wedi dod yn fwy anodd i fusnesau aeddfed gael mynediad ato. Nid yw'r sector manwerthu yn flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ariannu prentisiaethau ac mae ymwybyddiaeth wael ymhlith perchnogion busnes o ran sut i gyflogi eu prentis cyntaf yn ymarferol. Dylai'r system addysg roi pwyslais cyfartal ar gymwysterau galwedigaethol ac academaidd.

Mae gwasanaethau bancio, peiriannau twll yn y wal a chysylltedd digidol yn seilwaith hanfodol ar strydoedd mawr a pharedau siopa ar gyfer busnesau. Mae mannau ble gall gweithwyr llawrydd rannu gofod swyddfa hefyd yn werthfawr fel lleoedd i annog rhwydweithio a rhannu arfer gorau rhwng perchnogion busnes.

Croesawodd y panel y 'Prawf Entrepreneuriaid', a allai, er enghraifft, gael ei ddefnyddio wrth ystyried cynigion er mwyn mynd i'r afael ag osgoi ardrethi busnes. Gellid ymestyn y prawf i awdurdodau lleol, sef y prif lefel o ymgysylltiad gwleidyddol i’r rhan fwyaf o fusnesau. Dylid diwygio'r system ardrethi busnes i gynnal ailbrisiadau yn amlach er mwyn hyrwyddo costau treth sefydlog a chymell buddsoddiad gan drethdalwyr i wella eu heiddo.

### 4. Sesiwn holi ac ateb

Gofynnwyd i'r panel werthuso effaith Dydd Sul Dim Ceir yng Nghaerdydd ar fusnesau lleol. Dylai polisïau parcio adlewyrchu sut mae teithiau siopa cwsmeriaid yn wahanol ar draws lleoliadau masnachol, a allai, er enghraifft, newid y cymysgedd o ddarpariaethau parcio arhosiad byr ac arhosiad hir mewn mannau siopa cynradd ac eilradd. Dylai polisïau parcio alluogi diwylliant 'stopio a siopa' i adlewyrchu’r galw am gyfleustra gan gwsmeriaid.

### 5. Cloi

Diolchodd Janet Finch-Saunders AC i’r rhai a oedd yn bresennol am ddod a daeth â’r cyfarfod i ben.